

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys  
y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y  
Cyngor)**

**Dydd Mawrth 16 Rhagfyr, 2014 am 10.30am.**

**Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)**

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 4 p.m. ar y diwrnod gwaith olaf cyn dyddiad y cyfarfod uchod. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad p'un ai ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. Pe hoffech chi wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062.

**RHESTR O'R PYNCIAU I'W TRAFOD**

**1 Datganiad Buddiant:**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. Datblygiad Economaidd Clystyrau Busnes.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio, sy'n amlinellu gwaith y clystyrau busnes rhanbarthol sydd wedi'i gwblhau hyd yn hyn ac ystyried datblygiad pellach.

**Tudalennau 1 – 6**

3. **Bil Cynllunio ac ymgynghoriadau cysylltiedig Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynigion i Ddiwygio'r System Gynllunio yng Nghymru.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio, sy'n amlinellu cynnwys y Bil Cynllunio a gafodd ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref.

**Tudalennau 7 - 88**

**4. Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Datblygu Fflatiau**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Datblygiadau Fflatiau.

**Tudalennau 89 -110**

**5 Sicrhau Mesurau Cyflogaeth a Hyfforddi drwy rwymedigaethau Cynllunio**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer sicrhau Mesurau Cyflogaeth a Hyfforddiant drwy rwymedigaethau Cynllunio.

**Tudalennau 111 - 128**

**6 Adolygu Cynllun Ymddeol yn Gynnar Gwirfoddol a Chynllun Diswyddo Gwirfoddol y Cyngor.**

Derbyn Adroddiad Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol sy'n ceisio barn y Cabinet ynglŷn ag a ddylid diwygio Cynllun Ymddeol yn Gynnar Gwirfoddol presennol (VER) a Chynllun Diswyddo Gwirfoddol (VR) y Cyngor, yng ngoleuni'r materion ariannol cyfredol sy'n wynebu'r Cyngor.

**Tudalennau 129 - 132**

**7. Sefydlu Cynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n darparu diweddariad ar gynnydd y cynlluniau i sefydlu Cynllun Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd.

**Tudalennau 133- 172**

**8. Archwiliad o ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.**

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynghori Aelodau o'r dyletswyddau statudol newydd ar Awdurdodau Lleol, sy'n ymwneud â chyfleoedd chwarae, fel y'i cyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2014.

**Pages 173 - 215**

**9 Llinell Waelod (Sylfaen) Treth y Cyngor 2015/16**

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n amlinellu Llinell Waelod (Sylfaen) Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31<sup>ain</sup> Mawrth 2016.

**Tudalennau 216- 222**

**10. Cynnal Gwasanaethau yn y Tymor Canolig - Yr Wybodaeth Ddiweddaraf Cyllideb Refeniw y Cyngor 2015/16**

Derbyn cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf o ran Cynllunio Gwasanaethau'r Tymor Canolig - Cyllid Refeniw'r Cyngor 2015/16

**11 Materion Brys**

Trafod unrhyw faterion brys mae Cadeirydd y Cabinet yn eu cymeradwyo.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**